O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2022 Rhif (Cy.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A4232 (Capel Llanilltern i Groes Cwrlwys, Caerdydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2022

Gwnaed	*17 Chwefror 2022*
Yn dod i rym	*22 Chwefror 2022*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A4232, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4232 (Cyfnewidfa Capel Llanilltern i Groes Cwrlwys, Caerdydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 22 Chwefror 2022.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" (*"exempted vehicle"*) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

W E L S H S T A T U T O R Y
I N S T R U M E N T S

2022 No. (W.)

ROAD TRAFFIC, WALES

The A4232 Trunk Road (Capel Llanilltern to Culverhouse Cross, Cardiff) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2022

Made	*17 February 2022*
Coming into force	*22 February 2022*

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A4232 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A4232 Trunk Road (Capel Llanilltern to Culverhouse Cross, Cardiff) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2022 and this Order comes into force on 22 February 2022.

Interpretation

2. In this Order—

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(**1**) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 22 Chwefror 2022 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A4232 Llundain i Abergwaun.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 17 Chwefror 2022

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darnau o gerbytffyrdd tua'r gogledd a thua'r de yr A4232 (gan gynnwys y lôn neilltuedig tua'r de wrth Gyffordd 33) sy'n ymestyn o bwynt 352 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt Cyfnewidfa Croes Cwrlwys hyd at eu chyffyrdd â'r gerbytffordd gylchredol wrth Gyfnewidfa Capel Llanilltern (Cyffordd 33 yr M4).

Y darnau o ffordd ymuno tua'r gogledd a ffordd ymadael tua'r de yr A4232 wrth Gyfnewidfa Croes Cwrlwys.

"the trunk road" (*"y gefnffordd"*) means the A4232 London to Fishguard trunk road;

"works period" *("cyfnod y gwaith")* means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 22 February 2022 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated 17 February 2022

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

SCHEDULE

The lengths of the A4232 northbound and southbound carriageways (including the southbound dedicated lane at Junction 33) that extend from a point 352 metres north-west of the centre-point of Culverhouse Cross Interchange to its junction with the circulatory carriageway at Capel Llanilltern Interchange (M4 Junction 33).

The lengths of the A4232 northbound entry and southbound exit slip roads at Culverhouse Cross Interchange.